



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 651 (Cy.68)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Blaenau Gwent a
Chaerffili (Tredegar a Rhymni)
2002

NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n cael ei wneud yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi eu heffaith i gynigion gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Effaith y cynigion hynny yw y bydd ardal Tafarnau-bach yng nghymuned Rhymni yng Nghaerffili (a ddangosir â llinellau du ar y map ffiniau y cyfeirir ato yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn) yn dod yn rhan o gymuned Tredegar ym Mlaenau Gwent.

Mae printiau o'r map ffiniau wedi'u hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau arferol swyddfa yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn y Ganolfan Ddinesig, Glynebw, Blaenau Gwent ac yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn Nhredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, Caerffili ac yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd (Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol).

Mae Rheoliadau Newidiadau Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd) y cyfeirir at ynt yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau digwyddol, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynghylch effaith gorchymynion fel hyn a'u gweithredu.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 651 (W.68)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Blaenau Gwent and Caerphilly
(Tredegar and Rhymney) Order
2002

EXPLANATORY NOTE

(*This note is not part of the Order*)

This Order made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972 gives effect to proposals by the Local Government Boundary Commission for Wales. The effect of those proposals will see an area of the community of Rhymney in Caerphilly in the area of Tafarnau-bach (shown hatched in black on the boundary map referred to in Article 2 of the Order) become part of the community of Tredegar in Blaenau Gwent.

Prints of the boundary map are deposited and may be inspected during normal office hours at the Offices of Blaenau Gwent County Borough Council at Civic Centre, Ebbw Vale, Blaenau Gwent and at the offices of Caerphilly County Borough Council at Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, Caerphilly and at the offices of the National Assembly for Wales at Cathays Park, Cardiff (Local Government Modernisation Division).

The Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended) referred to in Article 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provision about the effect and implementation of orders such as this.

2002 Rhif 651 (Cy.68)**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Blaenau Gwent a
Chaerffili (Tredegar a Rhymni)
2002

Wedi'i wneud

5 Mawrth 2002

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru wedi cyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(a) sef adroddiad dyddiedig Chwefror 2001 ynghylch ei adolygiad ar ran o ardaloedd Cynghorau Bwrdeistref Blaenau Gwent a Chaerffili yng nghymunedau Tredegar a Rhymni yn ardal Tafarnaubach ynghyd â'r cynigion y maent wedi'u llunio yn eu cylch;

a chan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi eu heffaith i'r cynigion hynny heb eu haddasu;

a chan fod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu gwneud;

yn awr mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(b) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Blaenau Gwent a Chaerffili (Tredegar a Rhymni) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ebrill 2002, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau, ond at ddibenion pob achos sy'n arwain at etholiad neu'n ymwneud ag etholiad sydd i'w gynnal ar neu ar

(a) 1972 (p.70).

(b) (O.S. 1999/672).

2002 No. 651 (W.68)**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Blaenau Gwent and Caerphilly (Tredegar and Rhymney) Order 2002

Made

5th March 2002

Coming into force in accordance with Article 1(2)

The Local Government Boundary Commission for Wales, has submitted to the National Assembly for Wales in accordance with section 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(a) a report dated February 2001 on its review of part of the areas of the County Boroughs of Blaenau Gwent and Caerphilly in the communities of Tredegar and Rhymney in the area of Tafarnaubach together with the proposals they have formulated thereon;

and the National Assembly for Wales having decided to give effect to those proposals without modification;

and more than six weeks having elapsed since those proposals were made;

now the National Assembly for Wales in exercise of the powers given to the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales hereby by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order(b) makes the following Order:

Name and commencement

1.-(1) This Order is called the Blaenau Gwent and Caerphilly (Tredegar and Rhymney) Order 2002.

(2) This Order shall come into force on 6th April 2002, which is the appointed day for the purposes of the Regulations, except that for the purpose of all proceedings preliminary or relating to an election to be

(a) 1972 (c.70).

(b) (S.I. 1999/672).

ôl y dyddiad hwnnw daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei wneud.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "Blaenau Gwent" ("Blaenau Gwent") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;

ystyr "Caerffili" ("Caerphilly") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;

ystyr "y map ffiniau" ("the boundary map") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a farciwyd "Map o Orchymyn Blaenau Gwent a Chaerffili (Tredegar a Rhymney) 2002" a sydd wedi'i hadneuo yn unol a Rheoliadau 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("the Regulations") yw Rheoliadau Newidiadau Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 fel y'u diwygiwyd (a).

held on or after that date this order shall come into force on the day after that on which it is made.

Interpretation

2. In this Order -

"Blaenau Gwent" ("Blaenau Gwent") means the County Borough of Blaenau Gwent;

"the boundary map" ("y map ffiniau") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map of the Blaenau Gwent and Caerphilly (Tredegar and Rhymney) Order 2002" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

"Caerphilly" ("Caerffili") means the County Borough of Caerphilly;

"the Regulations" ("y Rheoliadau") means the Local Government Area Changes Regulations 1976 as amended(a).

Newid Ardaloedd Cymunedau

3. Caiff y rhan honno o gymuned Rhymni sydd yng Nghaerffili ac a ddangosir â llinellau du ar y map ffiniau ei gwahanu oddi wrth y fwrdeistref sirol a'r gymuned honno a bydd yn ffurfio rhan o gymuned Tredegar ym Mlaenau Gwent.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Changes in Principal Community Areas

3. That part of the community of Rhymney which is in Caerphilly and shown hatched in black on the boundary map shall be separated from that county borough and community and shall form part of the community of Tredegar in Blaenau Gwent.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

5 Mawrth 2002

5th March 2002

Edwina Hart


Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

Minister for Finance, Local Government and Communities

(a) O.S. 1976/246 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 O.S. 1978/247.

(a) S.I. 1976/246 as amended by the Local Government Area Changes (Amendment) Regulations 1978 S.I. 1978/247.

Map o Orchymyn Blaenau Gwent a Chaerffili (Tredegar a Rhymni) 2002



Tir a drosglwyddwyd o Gymuned Rhymni ym Mwrdeistref
Sirol Caerffili i Gymuned Tredegar ym Mwrdeistref
Sirol Blaenau Gwent



Ffin Bresennol yr Awdurdod Lleol a'r Gymuned



Ffin Newydd yr Awdurdod Lleol a'r Gymuned




0 0.5 1 kilometr

CartoGraffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Atgynhyrchiwyd y map hwn o fap yr Arolwg Ordinans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwass Ei Mawrhydi.
h © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu yn ddiawdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu
achos sifil. Rhif y Drwydded: GD272221

The Map of the Blaenau Gwent and Caerphilly (Tredegar and Rhymney) Order 2002



Land transferred from the Community of Rhymney in the County Borough of Caerphilly to the Community of Tredegar in the County Borough of Blaenau Gwent



Existing Local Authority and Community Boundary



New Local Authority and Community Boundary



0

0.5

1 kilometre

CartoGraphics, The National Assembly for Wales

This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**OFFERYNNAU STATUDOL****2002 Rhif 651 (Cy.68)****LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Blaenau Gwent a
Chaerffili (Tredegar a Rhymni)
2002

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**STATUTORY INSTRUMENTS****2002 No. 651 (W.68)****LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Blaenau Gwent and Caerphilly
(Tredegar and Rhymney) Order
2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W0010/05/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090478-8

